**Pennaeth / Headteacher: Miss N Downes**
**Ffôn / Tel: (01443) 670 319**
**E:-Bost / E:-Mail: admin.yggtonyrefail@rctcbc.gov.uk**

Annwyl Rieni / Warcheidwaid

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ar ddydd Mawrth 3[ydd]. Gweler isod wybodaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

**Trefn Dyddiol y Dosbarthiadau:**

Mae'r drysau i'r ystafelloedd dosbarth ar agor o 8:50am.
Dylai **pob disgybl** fod yn eu hystafelloedd dosbarth erbyn **9:00am**

| **Dosbarthiadau** | **Amser Dechrau** | **Amser Gorffen** |
|---|---|---|
| Blwyddyn 3-6 | **9:00am** | 3:30pm |
| Blwyddyn 1-2 | **9:00am** | 3:25pm |
| Dosbarth Derbyn | **9:00am** | 3:10pm |
| Dosbarth Meithrin | **9:00am** | 12:00pm |

**Presenoldeb**
Rydym yn ceisio sicrhau lefel presenoldeb uchel ar gyfer pob disgybl, gall absenoldebau cyson atal cynnydd. Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, rhaid i bob rhiant roi rheswm dros absenoldeb eu plentyn o'r ysgol. Dylid gadael neges ar beiriant ateb yr ysgol yn esbonio'r rheswm dros absenoldeb eich plentyn - dylid gwneud hyn cyn 9:00am. ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Os na dderbynnir eglurhad, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel 'absenoldeb sydd heb ei awdurdodi' ar y gofrestr. Mae Swyddog Presenoldeb a Lles yr ysgol yn monitro'n agos holl bresenoldeb disgyblion yn rheolaidd a bydd yn cysylltu â chi os yw'r ganran yn is na 90% - os nad oes rheswm dilys am yr absenoldeb.

Rhaid i rieni sy'n casglu eu plentyn cyn diwedd y diwrnod ysgol roi rheswm dilys a llofnodi cofrestr electronig yr ysgol.

**Cyrraedd yn Hwyr**
Os yw plentyn yn cyrraedd yn hwyr i'r dosbarth mae'n golygu ei f/bod yn colli'r cyflwyniad i'r wers, mae hefyd yn gwneud rhai plant yn bryderus. Mae bod 10 munud yn hwyr y dydd yn golygu bod eich plentyn yn colli 50 munud o addysg yr wythnos. Bydd y rhai sy'n cyrraedd yn hwyr yn gyson yn cael eu cyfeirio i'r Swyddog Addysg a Lles. Os ydych chi'n cyrraedd yn hwyr, ewch I'r dderbynfa lle bydd rhaid llofnodi'r gofrestr electronig.

**Salwch**

- Os yw eich plentyn yn teimlo'n sâl yn y bore yna fe ddylech eu cadw adref ac ni ddylent ddod i'r ysgol. **Gadewch neges ar beiriant ateb yr ysgol i ddweud pam fod eich plentyn yn absennol.**

- Os ydi eich plentyn yn dioddef o unrhyw salwch megis asthma lle y mae angen rhoi meddygyniaeth iddynt yn yr ysgol – dylid gofyn am gopi o ffurflen 'cyflwyno meddygyniaeth' yr ysgol a'i dychwelyd i'r swyddfa cyn gynted a bo modd.

**Alergeddau**

- Cofiwch roi gwybod i'r ysgol os oes gan eich plentyn unrhyw alergedd.

**Clwb Brecwast**

- Bydd y clwb Brecwast yn ail ddechrau ar Fedi 3ydd yn dilyn y trefniadau arferol.
- Rhaid i bob plentyn sy'n mynychu fod wedi archebu lle ymlaen llaw drwy wefan RCT
- **Rhaid i rieni dywys eu plant i'r dderbynfa yn ddyddiol i'w cofrestru ar gyfer y Clwb Brecwast.**

**Gwisg Ysgol**

Mae'n hyfryd gweld pob disgybl yn edrych mor drwsiadus yn eu gwisgoedd ysgol ar ddechrau'r tymor. Mae gwisgo gwisg ysgol yn bwysig - mae'n cyfrannu at ddatblygu hunanddisgyblaeth yn ogystal â chreu ymdeimlad o berthyn. Mae gwisg ysgol yn gosod safon uchel o fewn yr ysgol a gofynnwn am gydweithrediad rhieni ar y mater hwn.

- Dim Crocs / sliders i'w gwisgo i'r ysgol – esgidiau neu draeneri addas
- Clustdlysau – dim ond stydiau i'w gwisgo
- Dim colur, ewinedd ffug nac amrantau ffug
- Rhowch enw'ch plentyn yn glir ar bob dilledyn (gan gynnwys dillad ymarfer corff, cotiau a bagiau/bocsys bwyd / poteli dŵr) gan y bydd hyn yn ein helpu i ddychwelyd eitemau i'w perchnogion!

**Gwisg Ymarfer Corff**

- Dylai disgyblion, ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol, ddod i'r ysgol yn gwisgo gwisg Ymarfer Corff yr ysgol sef: crys-t gwyn/coch, siorts du plaen, gwaelod tracwisg neu legins llwyd / du plaen, crys chwys coch plaen/logo'r ysgol
- Bydd gwybodaeth am ddiwrnodau gwersi Addysg Gorfforol y dosbarth yn cael ei rhannu ar ddechrau'r tymor

**Trefniadau Teithio / Casglu Eich Plentyn o'r Ysgol**

- Rhowch wybod i'r ysgol (cyn 3pm) os oes unrhyw newidiadau i drefniadau diwedd dydd arferol eich plentyn: os yw person gwahanol am gasglu eich plentyn o'r ysgol, neu os nad yw'n dychwelyd adref ar y bws ysgol.
- Rhaid i unrhyw blentyn sy'n teithio i'r ysgol ar fws gael eu danfon i / casglu o'r arhosfan bysiau gan oedolyn.

**Gwyliau**

- Os byddwch yn cymryd gwyliau yn ystod y tymor, llenwch y ffurflen gais gwyliau a'i dychwelyd i'r swyddfa

**Parcio**

- Rydym yn eich atgoffa i beidio a **pharcio yn yr arosfan bysiau, o flaen gatiau'r ysgol nac ychwaith ym maes parcio'r staff.** Dylid rhannu'r wybodaeth hyn gyda unrhyw oedolyn sydd yn danfon / casglu eich plentyn o'r ysgol.
- Er mwyn hwyluso trefniadau teithio gofynwn yn garedig ichi i adael yn syth ar ôl danfon/casglu eich plentyn er mwyn sicrhau fod digon o le parcio ar gael.

| Dyddiadau Tymor Ysgol 2024 -2025 | | |
|---|---|---|
| Tymor | Dechrau | Gorffen |
| **Tymor yr Hydref 2024**<br><br>**Hanner Tymor**<br><br>**Tymor yr Hydref 2024** | **Dydd Llun, Medi 2 2024**<br><br>**Dydd Llun, Hydref 28 2024**<br><br>**Dydd Llun, Tachwedd 4 2024** | **Dydd Gwener, Hydref 25 2024**<br><br>**Dydd Gwener, Tachwedd 1 2024**<br><br>**Dydd Gwener, Rhagfyr 20 2024** |
| Nadolig 2024 | Dydd Llun, Rhagfyr 23 2024 | Dydd Gwener, Ionawr 3 2025 |
| **Tymor y Gwanwyn 2025**<br><br>**Hanner Tymor**<br><br>**Tymor y Gwanwyn 2025** | **Dydd Llun , Ionawr 6 2025**<br><br>**Dydd Llun , Chwefror 24 2025**<br><br>**Dydd Llun , Mawrth 3 2025** | **Dydd Gwener, Chwefror 21 2025**<br><br>**Dydd Gwener, Chwefror 28 2025**<br><br>**Dydd Gwener, Ebrill 11 2025** |
| Pasg 2025 | Dydd Llun, Ebrill 14 2025 | Dydd Gwener, Ebrill 25 2025 |
| **Tymor yr Haf 2025**<br><br>**Hanner Tymor**<br><br>**Tymor yr Haf 2025** | **Dydd Llun, Ebrill 28 2025**<br><br>**Dydd Llun, Mai 26 2025**<br><br>**Dydd Llun, June 2 2025** | **Dydd Gwener, Mai 23 2025**<br><br>**Dydd Gwener, Mai 30 2025**<br><br>**Dydd Llun, July 21 2025** |

Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd:
Bydd **Llun 2 Medi 2024 a Dydd Llun 21 Gorffennaf 2025** yn cael eu dynodi'n ddyddiau HMS ar gyfer pob Ysgol a Gynhelir gan yr AALl.
Bydd 4 diwrnod HMS arall i'w cymryd gan gynnwys:
**Dydd Llun 21 Hydref 2024**

**Dyddiadau Digwyddiadau Tymor yr Hydref**
Bydd gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfodydd a digwyddiadau tymor yr hydref yn cael ei roi yn fuan ar wefan yr ysgol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad parhaus

Nia Downes